OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2004 Rhif 905 (Cy.89)

# GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

## Rheoliadau Cynghorau Iechyd Cymuned 2004

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | - - | *24 Mawrth 2004* |
| *Yn dod i rym* | - - | *1 Ebrill 2004* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru trwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 16BB(4), 17 a 126(4) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977(**1**) a pharagraffau 2, 3 a 4 o Atodlen 7A iddi drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

## RHAN I

Cyffredinol

**Enwi, cychwyn a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cynghorau Iechyd Cymuned 2004 a deuant i rym ar 1 Ebrill 2004.

(2) Yn y Rheoliadau hyn —

ystyr "aelod" ("*member*"), lle y mae'r cyd-destun yn caniatáu hynny, yw aelod o Gyngor neu aelod o Fwrdd CIC yn ôl y digwydd;

ystyr "Awdurdod Iechyd Strategol perthnasol" ("*relevant Strategic Health Authority*"), mewn perthynas â Chyngor, yw unrhyw Awdurdod Iechyd Strategol sy'n gwneud penderfyniadau sy'n effeithio ar bersonau sy'n preswylio yn ardal y Cyngor;

ystyr "awdurdod lleol perthnasol" ("*relevant local authority*"), mewn perthynas â Chyngor, yw unrhyw awdurdod lleol y mae ei ardal, neu ran o'i ardal, wedi'i chynnwys yn ardal y Cyngor;

ystyr "blwyddyn ariannol" ("*financial year*") yw'r cyfnod o 12 mis sy'n dod i ben ar 31 Mawrth mewn unrhyw flwyddyn;

(**1**) 1977 p.49. Diwygiwyd adran 126(4) gan adran 65(2) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Gofal yn y Gymuned 1990 (p.19) a pharagraff 37(6) o Ddeddf Iechyd 1999 (p.8) ac adran 1 o Deddf Iechyd (Cymru) 2003 (p.4) ("Deddf 2003"). Mewnosodwyd adran 16BB(4) gan adran6 o Ddeddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002 (p.17). Mewnasodwyd, ac Atodlen 7A gan adran 1 o Ddeddf 2003. Trosglwyddwyd swyddogaethau Ysgrifennydd Gwladol Cymru o dan adran 126(4) o Ddeddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 O.S. 1999/672.

ystyr "Bwrdd CIC" ("*CHC Board*") yw Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned yng Nghymru a sefydlwyd gan reoliad 23 o'r Rheoliadau hyn;

ystyr "Bwrdd Iechyd Lleol perthnasol" ("*relevant Local Health Board*"), mewn perthynas â Chyngor, yw unrhyw Fwrdd Iechyd Lleol y mae ei ardal, neu unrhyw ran o'i ardal, yn cael ei chynnwys yn ardal y Cyngor;

ystyr "corff sy'n penodi" ("*appointing body*"), mewn perthynas â phenodi aelod o'r Cyngor yw'r Cynulliad, awdurdod lleol perthnasol neu gorff gwirfoddol;

ystyr "Cyfarwyddwr" ("*Director*") yw'r person a benodir o dan reoliad 24 i weithredu fel Cyfarwyddwr y Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned yng Nghymru;

ystyr "Cyngor" ("*Council*") yw Cyngor Iechyd Cymuned;

ystyr "y Cynulliad" ("*the Assembly*") yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru;

ystyr "Deddf 2001" ("*the 2001 Act*") yw Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2001(**2**)

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977;

ystyr "Prif Swyddog" ("*Chief Officer*") yw'r person a benodir o dan reoliad 14 i weithredu fel Prif Swyddog Cyngor;

ystyr "Ymddiriedolaeth GIG berthnasol" ("*relevant NHS Trust*"), mewn perthynas â Chyngor, yw unrhyw Ymddiriedolaeth GIG a sefydlwyd mewn perthynas ag ysbyty, neu sefydliad neu gyfleuster arall sy'n darparu gwasanaethau i bersonau sy'n preswylio o fewn ardal y Cyngor;

ystyr "Ymddiriedolaeth Gofal Sylfaenol berthnasol" ("*relevant Primary Care Trust*"), mewn perthynas â Chyngor, yw unrhyw Ymddiriedolaeth Gofal Sylfaenol sy'n darparu gwasanaethau i bersonau sy'n preswylio yn ardal y Cyngor.

# RHAN II

## Sefydlu Cynghorau ac Aelodau Cynghorau

### Cyfansoddiad Cynghorau

**2.**—(1) Rhaid penodi aelodau Cyngor —

(a) yn achos rhai aelodau, gan yr awdurdodau lleol perthnasol yn unol â rheoliad 5;

(b) yn achos rhai aelodau eraill, gan y cyrff gwirfoddol y penderfynwyd arnynt yn unol â rheoliad 6; ac

(c) yn achos gweddill yr aelodau, gan y Cynulliad,

ac i'r diben hwn rhaid i'r Cynulliad benderfynu ar nifer yr aelodau i'w penodi gan bob categori o awdurdodau sy'n penodi a grybwyllir yn is-baragraffau (a) a (b) uchod.

(2) Rhaid i'r Cynulliad arfer ei bwerau i benderfynu o dan baragraff (1) er mwyn sicrhau nid hwyrach nag Ebrill 2006—

(a) bod o leiaf un aelod yn cael ei benodi gan bob awdurdod lleol perthnasol a bod chwarter cyfanswm aelodau Cyngor yn cael eu penodi gan yr awdurdodau lleol perthnasol; a

(b) bod chwarter yr aelodau'n cael eu penodi gan y cyrff gwirfoddol.

(3) Yn ychwanegol at yr aelodau a benodir yn unol â pharagraffau (1) a (2), caiff Cyngor o bryd i'w gilydd benodi'r aelodau cyfetholedig hynny sydd yn ei farn ef yn angenrheidiol neu'n fanteisiol iddo er mwyn iddo gyflawni ei ddyletswyddau.

(**2**) 2001 p.15.

(4) Ni chaiff aelodau cyfetholedig bleidleisio mewn unrhyw un o gyfarfodydd neu weithredoedd y Cyngor.

### Tymor gwasanaethu'r aelodau

**3.**—(1) Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau canlynol y rheoliad hwn ac i reoliadau 9 a 10 (datgymhwyso aelod a dod ag aelodaeth aelod i ben), tymor gwasanaethu unrhyw aelod fydd—

(a) yn achos Cyngor sy'n bodoli, pedair blynedd;

(b) yn achos Cyngor a sefydlwyd o dan adran 20A(2)(b)(**3**) o'r Ddeddf, tymor nad yw'n hwy na phedair blynedd fel y bydd y corff sy'n penodi yn pennu pan gaiff aelod ei benodi;

(c) yn achos penodi aelod yn aelod cyntaf ar Gyngor a sefydlwyd o dan adran 20A(2)(b) o'r Ddeddf, tymor gwasanaethu aelod a fu, yn union cyn iddo gael ei benodi'n aelod cyntaf ar Gyngor newydd, yn aelod o Gyngor sy'n bodoli neu'n aelod o Gyngor a ddiddymwyd neu o Gyngor y newidiwyd yr ardal y'i sefydlwyd mewn perthynas â hi o dan adran 20A(2)(b) o'r Ddeddf fydd yr amser sy'n weddill o dymor gwasanaethu'r aelod hwnnw yn aelod o Gyngor y cyfeirir ato yn y paragraff hwn.

(2) Pan fydd Cyngor newydd i'w sefydlu ar gyfer ardal neu ran o ardal Cyngor sy'n bodoli, caiff y Cynulliad benderfynu y bydd tymor gwasanaethu unrhyw aelod o'r Cyngor sy'n bodoli yn dod i ben yn union cyn sefydlu'r Cyngor newydd ac os penodir aelod y deuir â'i dymor gwasanaethu i ben yn unol â'r paragraff hwn yn aelod cyntaf ar y Cyngor newydd, tymor gwasanaethu'r aelod hwnnw fydd yr amser sy'n weddill o dymor gwasanaethu'r aelod hwnnw yn aelod o'r Cyngor sy'n bodoli.

### Tymor gwasanaethu aelodau cyfetholedig

**4.** Ni cheir penodi aelodau cyfetholedig am gyfnod sy'n fwy na blwyddyn ac ni cheir eu hailbenodi pan ddaw eu tymor i ben oni fydd y Cyngor yn penderfynu bod ailbenodi o'r fath yn angenrheidiol neu'n fanteisiol iddo er mwyn iddo gyflawni ei ddyletswyddau.

### Penodi aelodau gan awdurdodau lleol

**5.**—(1) Pan fydd nifer yr aelodau i'w penodi gan bob awdurdod lleol perthnasol yn caniatáu i fwy nag un aelod gael ei benodi gan bob awdurdod lleol perthnasol, rhaid i unrhyw aelodau pellach gael eu penodi gan yr awdurdodau lleol perthnasol hynny y penderfynir arnynt drwy gytundeb rhwng yr awdurdodau lleol hynny neu, os na cheir cytundeb o'r fath, erbyn y dyddiad y caiff y Cynulliad ei bennu at y diben, yn unol â'i benderfyniad.

(2) Caiff person a benodir yn unol â'r rheoliad hwn fod yn aelod o'r awdurdod lleol sy'n ei benodi ond nid yw hynny'n angenrheidiol.

(3) Yn ddarostyngedig i baragraff (4), os bydd aelod a benodir gan awdurdod lleol yn aelod o'r awdurdod lleol sy'n penodi, rhaid iddo ef neu hi, pan na fydd mwyach yn aelod o'r awdurdod lleol sy'n penodi, beidio â bod yn aelod o'r Cyngor pan ddaw cyfnod o ddeufis yn cychwyn ar y dyddiad y peidiodd â bod yn aelod o'r awdurdod lleol i ben.

(4) Mewn achos y mae paragraff (3) yn gymwys iddo, caiff yr awdurdod lleol roi rhybudd ysgrifenedig i'r Prif Swyddog ac i'r Cynulliad, yn ystod y cyfnod y cyfeirir ato yn y paragraff hwnnw, yn mynegi bod y person a benodir i barhau'n aelod o'r Cyngor.

(**3**) Mewnosodwyd adran 20A gan adran 1 o Ddeddf 2003.

**Penodi aelodau gan gyrff gwirfoddol**

**6.**—(1) Rhaid i'r Cynulliad wahodd y cyrff gwirfoddol hynny y mae'n penderfynu bod ganddynt fuddiant digonol yn y gwasanaeth iechyd yn ardal Cyngor, i gymryd rhan yn y gwaith o benodi personau yn aelodau o Gyngor.

(2) Yn ddarostyngedig i baragraff (3), rhaid i'r cyrff gwirfoddol a wahoddir i gymryd rhan yn y gwaith o benodi aelodau o Gyngor, trwy gytuno â'i gilydd, benderfynu pa rai ohonynt, pa un ai'n gweithredu ar eu pen eu hunain neu ar y cyd fydd yn penodi'r aelodau hynny.

(3) Os na cheir cytundeb at ddibenion paragraff (2) erbyn y dyddiad y bydd y Cynulliad yn ei bennu at y diben, rhaid i'r Cynulliad benderfynu pa gyrff gwirfoddol fydd yn gwneud penodiad, ac a ddylid gwneud y penodiadau gan un corff o'r fath neu fwy yn gweithredu ar eu pen eu hunain neu ar y cyd ag un corff arall o'r fath neu fwy.

(4) Caiff aelod a benodir yn unol â'r rheoliad hwn fod yn aelod o'r corff gwirfoddol sy'n ei benodi ond nid yw hynny'n angenrheidiol.

**Gweithdrefnau ar gyfer penodi aelodau**

**7.** Rhaid i'r cyrff sy'n penodi sicrhau bod trefniadau priodol wedi'u gwneud ar gyfer dewis a phenodi personau'n aelodau a bod y trefniadau hynny'n gymryd i ystyriaeth—

(a) yr egwyddorion a bennir o bryd i'w gilydd gan y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus(**4**) ac yn y Cod Ymarfer ar gyfer Penodiadau gan Weinidogion i Gyrff Cyhoeddus ac yng Nghad Ymarfer y Cynulliad(**5**);

(b) ei bod yn ofynnol bod dewis a phenodi aelodau'n brosesau agored a thryloyw; a

(c) lle y bo'n gymwys, ei bod yn ofynnol y dewisir ac y penodir aelodau trwy gystadleuaeth deg ac agored.

**Aelodau sy'n gymwys i'w hailethol**

**8.**—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2) ac i reoliad 9, bydd aelod yn gymwys i'w ailethol pan ddaw tymor ei wasanaeth i ben.

(2) Ni fydd person a fu'n aelod am wyth mlynedd ddilynol neu fwy yn gymwys i'w ailethol, onid oes cyfnod o bedair blynedd o leiaf wedi mynd heibio er pan fu ef neu hi yn aelod ddiwethaf ond, os bydd Cyngor a'r Cynulliad yn cytuno bod hynny'n angenrheidiol neu'n fanteisiol er mwyn i Gyngor gyflawni ei ddyletswyddau, caniateir ailethol aelod am gyfnod pellach nad yw'n fwy na blwyddyn.

**Datgymhwyso aelodau**

**9.**—(1) Ni fydd person yn gymwys i'w benodi'n aelod, ac i fod yn aelod—

(a) os yw ef neu hi yn gadeirydd, yn gyfarwyddwr neu'n aelod o Fwrdd Iechyd Lleol perthnasol, o Ymddiriedolaeth GIG berthnasol, o Awdurdod Iechyd Strategol perthnasol, neu o Ymddiriedolaeth Gofal Sylfaenol berthnasol;

(b) os cyflogir ef neu hi gan Fwrdd Iechyd Lleol perthnasol, Ymddiriedolaeth GIG berthnasol, Awdurdod Iechyd Strategol perthnasol neu Ymddiriedolaeth Gofal Sylfaenol berthnasol;

(c) os yw ef neu hi'n darparu gwasanaethau o dan y Ddeddf neu os y'i cyflogir gan berson neu gorff, nad yw'n gorff gwirfoddol, sy'n darparu gwasanaethau o dan y Ddeddf a hynny'n

(**4**) Gellir cael copïau o'r ddogfen hon drwy ysgrifennu at Is-adran GIG (Adnoddau Dynol), Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

(**5**) Gellir cael copïau o'r ddogfen hon drwy ysgrifennu at Is-adran GIG (Adnoddau Dynol), Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

unol â chontract a wnaed rhwng y person neu'r corff hwnnw a'r Bwrdd Iechyd Lleol perthnasol neu Ymddiriedolaeth GIG berthnasol;

(ch) os yw ef neu hi'n aelod o Gyngor arall; neu

(d) os yw ef neu hi

(i) yn ymarferydd meddygol,

(ii) yn ymarferydd deintyddol,

(iii) yn fferyllydd cofrestredig,

(iv) yn optegydd offthalmig cofrestredig neu optegydd fferyllol o fewn yr ystyr a geir yn Neddf Optegwyr 1989(**6**);

(v) yn nyrs gofrestredig, yn fydwraig gofrestredig neu'n ymwelydd iechyd cofrestredig, neu, pan fydd Gorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001(**7**) wedi dod i rym, wedi'i gofrestru neu wedi'i chofrestru yn y gofrestr sy'n cael ei chadw gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth o dan erthygl 5 o Orchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001,

ac yn darparu gwasanaethau fel y cyfryw o fewn ardal y Cyngor, ac eithrio na fydd darpariaethau paragraff (a) yn gymwys i aelod sydd i wasanaethu fel aeold cyswllt a Fwrdd Iechyd Lleol yn unol â darpariaethua Rheoliadau Byrddau Iechyd Lleol (Cyfansoddiad, Aeoldaeth a Gweithdrefnau) (Cymru) 2003(**8**).

(2) Yn ddarostyngedig i baragraff (3), ni fydd person yn gymwys i gael ei benodi, ac i fod yn aelod, os yw wedi'i ddiswyddo, ac eithrio oherwydd i'w swydd gael ei dileu, o unrhyw gyflogaeth gyflogedig gydag unrhyw un o'r cyrff canlynol —

(a) Bwrdd Iechyd Lleol;

(b) Awdurdod Iechyd;

(c) Awdurdod Iechyd Arbennig;

(ch) y Bwrdd Cenedlaethol Diogelu Radiolegol a sefydlwyd gan adran 1 o'r Ddeddf Amddiffyn Rhag Ymbelydredd 1970(**9**);

(d) Gwasanaeth Labordai Iechyd y Cyhoedd yng Nghymru;

(dd) y Comisiwn Gwella Iechyd;

(e) Ymddiriedolaeth GIG;

(f) y Bwrdd Ymarfer Deintyddol;

(ff) yr Asiantaeth Diogelu Iechyd(**10**);

(g) Awdurdod Iechyd Strategol; neu

(ng) Ymddiriedolaeth Gofal Sylfaenol.

(3) Yn ddarostyngedig i baragraff (4), os nad yw person yn gymwys o dan baragraff (2), ac ar ôl i nid llai na dwy flynedd yn cychwyn ar y dyddiad y'i diswyddwyd fynd heibio, caiff y person hwnnw wneud cais ysgrifenedig i'r Cynulliad i ddiddymu'r datgymhwysiad, a chaiff y Cynulliad gyfarwyddo bod y datgymhwysiad wedi'i ddiddymu.

(4) Pan fydd y Cynulliad yn gwrthod cais person i ddiddymu'r datgymhwysiad, ni chaiff y person hwnnw wneud cais arall o fewn dwy flynedd i ddyddiad y cais a wrthodwyd.

(**6**) 1989 p.44
(**7**) O.S. 2002/253.
(**8**) O.S. 2003/149(Cy.19), rheoliad 3(4)(i) ac Atodlen 2 , paragraff 17(a).
(**9**) 1970 p.46
(**10**) Sefydlwyd gan OS 2003/505

**Terfynu aelodaeth**

**10.**—(1) Caiff aelod ymddiswyddo ar unrhyw adeg yn ystod y tymor y'i penodwyd i wasanaethu trwy roi rhybudd ysgrifenedig i'r Cynulliad, a bydd yntau, os nad ef a benododd yr aelod, yn hysbysu'r corff perthnasol sy'n penodi a Bwrdd CIC ar ei union.

(2) Y dyddiad y daw ymddiswyddiad trwy rybudd a roddwyd yn unol â pharagraff (1) i rym fydd —

(a) os pennir dyddiad yn y rhybudd yn ddyddiad pryd y daw'r ymddiswyddiad i rym, y dyddiad hwnnw; a

(b) mewn unrhyw achos arall, y dyddiad y derbynnir y rhybudd gan y Cynulliad.

(3) Os methodd aelod fynychu cyfarfod o'r Cyngor, neu gyfarfod o un o bwyllgorau'r Cyngor, am gyfnod o dri mis, rhaid i'r Cyngor hysbysu Bwrdd CIC a rhoi gwybod am absenoldeb yr aelod i'r Cynulliad a rhaid i'r Cynulliad, onid yw'n fodlon —

(a) bod esboniad rhesymol dros absenoldeb yr aelod; a

(b) y bydd yr aelod yn gallu mynychu cyfarfodydd o'r Cyngor o fewn cyfnod sydd ym marn y Cynulliad yn gyfnod rhesymol,

ddatgan i'w le ar y Cyngor ddod yn wag a phan wneir y datganiad hwnnw, bydd y person hwnnw'n peidio â bod yn aelod.

(4) Os bydd y Cynulliad o'r farn nad yw o fudd i'r gwasanaeth iechyd i berson barhau'n aelod, caiff y Cynulliad, yn ddarostyngedig i baragraff (5), derfynu tymor gwasanaethu'r aelod.

(5) Rhaid i'r Cynulliad beidio â therfynu tymor gwasanaethu aelod o dan baragraff (4) heb iddo yngynghori â'r Cyngor, Bwrdd CIC, ac, os nad y Cynulliad a benododd yr aelod, y corff perthnasol sy'n penodi.

(6) Ni fydd person sy'n peidio â bod yn aelod oherwydd rhoi paragraff (3) a pharagraff (4) ar waith yn gymwys i gael ei ailbenodi'n aelod am gyfnod o bedair blynedd.

# RHAN III

## Trafodion Cynghorau

**Penodi cadeirydd ac is-gadeirydd**

**11.**—(1) Rhaid i'r aelodau benodi —

(a) un o'u plith i fod yn gadeirydd; a

(b) un neu ddau o'u plith, ac eithrio'r cadeirydd, i fod yn is-gadeirydd

a hynny am y cyfnodau y gallant benderfynu arnynt pan fyddant yn cynnal yr etholiad, sef cyfnodau na fyddant, beth bynnag, yn hwy na'r amser sy'n weddill o dymor gwasanaethu'r aelod fel aelod a rhaid i'r Prif Swyddog, ar ei union, hysbysu'r Cynulliad a Bwrdd CIC yn ysgrifenedig o enwau'r personau a etholwyd felly.

(2) Caiff cadeirydd neu is-gadeirydd ymddiswyddo o'r swydd honno ar unrhyw adeg trwy roi hysbysiad ysgrifenedig i'r Prif Swyddog, a bydd yn rhaid i'r Prif Swyddog, ar ei union, hysbysu'r Cynulliad a Bwrdd CIC yn ysgrifenedig; ac —

(a) pan fydd y cadeirydd wedi ymddiswyddo, rhaid i'r aelodau ethol cadeirydd arall yn unol â pharagraff (1);

(b) pan fydd is-gadeirydd wedi ymddiswyddo—

(i) os nad oes is-gadeirydd arall, rhaid i'r aelodau, neu

(ii) os oes is-gadeirydd arall, caiff yr aelodau

ethol is-gadeirydd arall yn unol â pharagraff (1).

**Penodi pwyllgorau a chyd-bwyllgorau**

**12.**—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), caiff Cyngor benodi un neu fwy o bwyllgorau'r Cyngor i arfer, yn ddarostyngedig i'r cyfyngiadau a'r amodau hynny sy'n briodol ym marn y Cyngor, rai, ond nid y cyfan, o swyddogaethau'r Cyngor.

(2) Ac eithrio pan gaiff y Cynulliad, mewn unrhyw achos arbennig, ganiatáu fel arall, ni ddylai llai na dau draean o aelodau unrhyw bwyllgor a benodwyd gan Gyngor fod yn aelodau o'r Cyngor hwnnw.

(3) Caiff Cyngor, ynghyd ag un neu fwy o Gynghorau eraill, benodi cyd-bwyllgor, y bydd ei aelodau i gyd yn aelodau o'r Cynghorau hynny, i arfer, yn ddarostyngedig i'r cyfyngiadau a'r amodau hynny y gall y Cynghorau gytuno arnynt rhyngddynt, rai, ond nid y cyfan, o swyddogaethau pob un o'r Cynghorau hynny.

**Cyfarfodydd a thrafodion**

**13.** Rhoddir darpariaethau'r Atodlen i'r Rheoliadau hyn ar waith mewn cysylltiad â chyfarfodydd a thrafodion y Cyngor.

**Swyddogion**

**14.**—(1) Rhaid i'r Cynulliad benodi person sy'n dderbyniol i Gyngor i weithredu fel Prif Swyddog y Cyngor, ac ar ôl ymgynghori â'r Cyngor, ac os derbyn y Cyngor unrhyw swyddog unigol a benodwyd, bydd hefyd yn penodi personau i weithredu fel swyddogion eraill y Cyngor fel sy'n angenrheidiol ym marn y Cynulliad.

(2) Penodir person i weithredu fel un o swyddogion Cyngor gan y Cynulliad mewn dull ac am gyfnod sy'n dderbyniol i'r Cyngor.

(3) Bydd y personau a benodir yn unol â pharagraff (1) a pharagraff (2) yn cael eu cyflogi gan Fwrdd Iechyd Lleol y gall y Cynulliad benderfynu arno at y diben, yn unol ag unrhyw reoliadau a wnaed gan y Cynulliad ac unrhyw gyfarwyddiadau a roddwyd ganddo o dan y Ddeddf, a rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol sy'n eu cyflogi sicrhau bod eu gwasanaethau ar gael i'r Cyngor gydol eu tymor gwasanaethu.

**Mangreoedd a chyfleusterau eraill**

**15.**—(1) Rhaid i'r Cynulliad, ar ôl ymgynghori â Chyngor —

(a) darparu lle ar gyfer swyddfa ac unrhyw lety arall sydd ym marn y Cynulliad yn angenrheidiol i alluogi Cyngor i gyflawni ei swyddogaethau; a

(b) sicrhau y gwneir trefniadau ar gyfer gweinyddu, cynnal a chadw, glanhau a gwasanaethau eraill y gall fod eu hangen mewn perthynas â'r llety hwn ym marn y Cynulliad,

ond caiff yr aelodau wneud trefniadau ar gyfer darparu gwasanaethau a llety, os cymeradwyir hynny gan y Cynulliad.

(2) I alluogi Cyngor i gyflawni ei swyddogaethau —

(a) caiff y Cynulliad sicrhau bod y cyfleusterau hynny y mae'n ystyried bod eu hangen ac a ddarperir ganddo ar gyfer unrhyw wasanaeth o dan y Ddeddf (yn cynnwys defnyddio unrhyw fangre ac unrhyw gerbyd, beiriannau neu offer) ar gael; a

(b) rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol y cyfeirir ato yn rheoliad 14(3) sicrhau bod gwasanaethau'r cyflogeion hynny ar gael yn unol â chyfarwyddyd y Cynulliad.

**Adroddiadau**

**16.**—(1) Mae'n rhaid i Gyngor, erbyn 1 Medi 2004 ac ym mhob blwyddyn ddilynol —

(a) cyflwyno adroddiad ysgrifenedig i'r Cynulliad ynghylch cyflawni ei swyddogaethau (yn cynnwys ei swyddogaethau o dan reoliad 22) (adfocatiaeth annibynnol) yn ystod y cyfnod o ddeuddeg mis yn dod i ben ar 31 Mawrth y flwyddyn honno, ac ynghylch y materion eraill y gall y Cynulliad ofyn amdanynt;

(b) rhoi copïau o'r adroddiad i bob Bwrdd Iechyd Lleol perthnasol, pob Ymddiriedolaeth GIG berthnasol a phob awdurdod lleol perthnasol; ac

(c) cymryd y camau hynny y mae'r Cyngor o'r farn eu bod yn briodol i sicrhau bod cynnwys yr adroddiad yn cael ei wneud yn hysbys i'r cyhoedd yn ei ardal.

(2) Ar dderbyn yr adroddiad rhaid i bob Bwrdd Iechyd Lleol neu Ymddiriedolaeth GIG —

(a) cyflwyno i'r Cyngor ei sylwadau ar yr adroddiad ynghyd â chofnod o unrhyw gamau a gymerir gan y Bwrdd Iechyd Lleol neu'r GIG o ganlyniad i gyngor a roddwyd gan y Cyngor, neu gynigion a wnaed ganddynt; a

(b) sicrhau bod y sylwadau hynny a'r cofnod hwnnw'n cael eu gwneud yn hysbys i'r cyhoedd yn ardal y Cyngor.

# RHAN IV

**Cyflawni Swyddogaethau**

**17.** Bydd yn ddyletswydd ar bob Cyngor i adolygu'n gyson y modd y gweithredir y gwasanaeth iechyd yn ei ardal, i wneud argymhellion ar gyfer gwella'r gwasanaeth hwnnw ac i roi cyngor i unrhyw Fwrdd Iechyd Lleol, neu Ymddiriedolaeth GIG ar y materion hynny y mae'r Cyngor yn eu hystyried yn briodol ac sy'n gysylltiedig â gweithredu'r gwasanaeth iechyd o fewn ei ardal.

**Cyrff Iechyd Perthnasol yn Ymgynghori â Chynghorau**

**18.**—(1) Bydd yn ddyletswydd ar bob Bwrdd Iechyd Lleol perthnasol, Ymddiriedolaeth GIG, Ymddiriedolaeth Gofal Sylfaenol ac Awdurdod Iechyd Strategol (y cyfeirir atynt yn y rheoliad hwn fel "corff GIG perthnasol") mewn perthynas â gwasanaethau iechyd y mae'n gyfrifol amdanynt, i gynnwys Cyngor

(a) yng ngwaith cynllunio'r ddarpariaeth o'r gwasanaethau hynny,

(b) yng ngwaith llunio ac ystyried cynigion i newid y modd y darperir y gwasanaethau hynny, ac

mewn penderfyniadau sydd i'w gwneud gan y corff hwnnw sy'n effeithio ar y ffordd y mae'r gwasanaethau hynny yn cael eu rhoi ar waith[

(2) Os yw corff GIG perthnasol wrthi'n ystyried unrhyw gynnig ar gyfer datblygu'r gwasanaeth iechyd yn sylweddol yn ardal Cyngor, neu ar gyfer amrywio'n sylweddol y modd y mae'r gwasanaeth hwnnw'n cael ei ddarparu, rhaid iddo ymgynghori â'r Cyngor hwnnw.

(3) Ni fydd paragraffau (1) a (2) yn gymwys i gynigion i sefydlu Bwrdd Iechyd Lleol neu i amrywio neu ddirymu Gorchymyn Bwrdd Iechyd Lleol neu i sefydlu neu ddiddymu Ymddiriedolaeth GIG.

(4) Ni fydd paragraffau (1) a (2) yn gymwys i unrhyw gynigion y mae'r corff GIG perthnasol yn fodlon bod yn rhaid gwneud penderfyniad arnynt heb ganiatáu ymgynghori, a hynny er budd y gwasanaeth iechyd neu oherwydd risg i ddiogelwch neu les cleifion neu staff; ond mewn achos o'r fath, rhaid i'r corff GIG perthnasol hysbysu'r Cyngor ar unwaith o'r penderfyniad a wnaed a'r rheswm pam na fu ymgynghori.

(5) Caiff Cyngor yr ymgynghorwyd ag ef gan gorff GIG perthnasol yn unol â pharagraff (2) gyflwyno sylwadau ar y cynnig sy'n destun yr ymgynghori erbyn y dyddiad a bennir gan y corff GIG perthnasol.

(6) Mewn unrhyw achos lle nad yw Cyngor yn fodlon —

(a) bod yr ymgynghori ar unrhyw gynnig y cyfeiriwyd ato ym mharagraff (2) wedi bod yn ddigonol o ran y cynnwys neu'r amser a ganiatawyd; neu

(b) pan yw paragraff (4) yn gymwys, fod y rheswm a roddwyd gan y corff GIG perthnasol yn ddigonol,

caiff gyflwyno adroddiad ysgrifenedig i'r Cynulliad ac fe gaiff y Cynulliad ei gwneud yn ofynnol i'r Bwrdd Iechyd Lleol perthnasol neu'r Ymddiriedolaeth GIG berthnasol, a chaiff ofyn i'r Ymddiriedolaeth Gofal Sylfaenol neu'r Awdurdod Iechyd Strategol o dan sylw gyflawni'r ymgynghori, neu'r ymgynghori pellach, â Chyngor y mae'n barnu ei fod yn briodol.

(7) Os yw ymgynghori pellach wedi bod yn ofynnol o dan baragraff (6), rhaid i'r corff GIG perthnasol, gan roi sylw i ganlyniad yr ymgynghori hwnnw, ailystyried unrhyw benderfyniad y mae wedi'i gymryd ynglyn â'r cynnig o dan sylw.

(8) Mewn unrhyw achos lle mae Cyngor o'r farn na fyddai cynnig a gyflwynwyd o dan baragraff (2) gan Fwrdd Iechyd Lleol perthnasol neu Ymddiriedolaeth GIG perthnasol er budd y gwasanaeth iechyd yn ei ardal, caiff gyflwyno adroddiad ysgrifenedig i'r Cynulliad a chaiff y Cynulliad wneud penderfyniad terfynol ar y cynnig a'i gwneud yn ofynnol i'r corff GIG perthnasol gymryd y camau, neu beidio â chymryd y camau, y mae'r Cynulliad yn cyfarwyddo y dylid eu cymryd.

**Gwybodaeth sydd i'w darparu gan gyrff iechyd perthnasol**

**19.**—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), bydd yn ddyletswydd ar bob Bwrdd Iechyd Lleol, Ymddiriedolaeth GIG, Ymddiriedolaeth Gofal Sylfaenol neu Awdurdod Iechyd Strategol perthnasol i roi i Gyngor yr wybodaeth honno am gynllunio a gweithredu gwasanaethau iechyd yn ei ardal y gall y Cyngor yn rhesymol ofyn amdani er mwyn cyflawni ei swyddogaethau.

(2) Nid fydd dim ym mharagraff (1) yn ei gwneud yn ofynnol i Fwrdd Iechyd Lleol, Ymddiriedolaeth GIG, Awdurdod Iechyd Strategol, neu Ymddiriedolaeth Gofal Sylfaenol ddarparu gwybodaeth gyfrinachol mewn cysylltiad â —

(a) diagnosis neu driniaeth i unrhyw glaf; neu

(b) materion personél yn effeithio ar unrhyw swyddog a gyflogir gan y Bwrdd Iechyd Lleol, Ymddiriedolaeth GIG, Awdurdod Iechyd Strategol, neu Ymddiriedolaeth Gofal Sylfaenol; neu unrhyw wybodaeth arall y gwaherddir drwy gyfraith ei datgelu.

(3) Os bydd i Fwrdd Iechyd Lleol perthnasol, Ymddiriedolaeth GIG, Ymddiriedolaeth Gofal Sylfaenol neu Awdurdod Iechyd Strategol wrthod datgelu i Gyngor wybodaeth nad yw paragraff (2) yn gymwys iddi, caiff y Cyngor apelio at y Cynulliad a bydd penderfyniad y Cynulliad ynghylch a yw'n rhesymol i'r Cyngor ofyn am yr wybodaeth er mwyn iddo gyflawni ei swyddogaethau yn derfynol at ddibenion y rheoliad hwn.

**Mynd i mewn i fangreoedd i'w harchwilio**

**20.**—(1) Yn ddarostyngedig i baragraffau canlynol y rheoliad hwn, caiff personau a gafodd eu hawdurdodi'n ysgrifenedig gan Gyngor, ar unrhyw adeg resymol, fynd i mewn i fangreoedd y mae'r canlynol yn berchen arnynt neu'n eu rheoli i'w harchwilio:—

(a) Byrddau Iechyd Lleol;

(b) Ymddiriedolaethau GIG ;

(c) awdurdodau lleol;

(ch) Ymddiriedolaethau Gofal Sylfaenol;

(d) personau sy'n darparu gwasanaethau o dan Ran 2 o Ddeddf 1977 neu o dan drefniadau o dan adran 28C o'r Ddeddf honno, neu

(dd) personau sy'n darparu gwasanaethau peilot o dan gynlluniau peilot a sefydlwyd o dan adran 28 o Ddeddf 2001, neu sy'n darparu gwasanaethau o dan gynllun GFfLl a sefydlwyd o dan Atodlen 8A i'r Ddeddf,

(e) personau sy'n darparu gwasanaethau meddygol sylfaenol neu wasanaethau deintyddol sylfaenol o dan Ran I o'r Ddeddf; neu

(f) personau sy'n berchen ar fangreoedd lle y darperir gwasanaethau fel a grybwyllir yn (d) (dd), neu (e).

(2) Rhaid rhoi i bob person a awdurdodir gan Gyngor o dan baragraff (1) dystiolaeth ysgrifenedig ei fod wedi'i awdurdodi a phan fydd yn ceisio mynd i mewn i unrhyw fangre y cyfeirir ati ym mharagraff (1) at y dibenion a bennwyd yn y paragraff hwnnw, rhaid iddo ddangos y dystiolaeth honno os gofynnir iddo wneud hynny gan berchennog neu feddiannwr y fangre honno neu gan berson sy'n gweithredu ar ran y naill neu'r llall ohonynt.

(3) Ac eithrio pan fydd Cyngor o'r farn ei bod yn fanteisiol i'r gwasanaeth iechyd ac er budd y gwasanaeth hwnnw, neu pan fydd risg i ddiogelwch neu les cleifion neu staff, rhaid i berson a awdurdodir gan Gyngor o dan baragraff (1) beidio â mynnu ei fod yn cael mynd i mewn i unrhyw fangre y cyfeirir ati yn y paragraff hwnnw fel mater o hawl oni chafodd y person neu'r corff sy'n berchen arni neu sy'n eu rheoli rybudd rhesymol o'i fwriad.

(4) Ni chaiff person a awdurdodwyd gan Gyngor o dan baragraff (1) fynd i mewn i unrhyw fangre neu ran o fangre a ddefnyddir fel llety preswyl —

(a) ar ran personau a gyflogir gan unrhyw rai o'r cyrff y cyfeirir atynt ym mharagraffau 4(a) i (ch); neu

(b) gan bersonau y cyfeirir atynt ym mharagraffau (4)(d) i (e),

heb iddo fod wedi cael caniatâd y bobl hynny'n gyntaf.

(5) Wrth arfer hawliau i fynd i mewn i fangre i'w harchwilio o dan y rheoliad hwn, bydd yn rhaid i Gyngor gadw mewn cof yr angen am sicrhau diogelwch, preifatrwydd ac urddas claf, ac unrhyw gyngor neu ganllawiau a roddwyd gan y Cynulliad a phan fydd yn ymarferol gwneud hynny, bydd yn cydweithredu ag unrhyw gorff arall sy'n arfer hawliau tebyg yn unol ag unrhyw ddeddfiad.

**Cyfarfodydd rhwng Cynghorau a Byrddau Iechyd Lleol perthnasol**

**21.** Bydd yn ddyletswydd ar bob Bwrdd Iechyd Lleol perthnasol i drefnu cyfarfod rhwng dim llai na thraean aelodau'r Bwrdd Iechyd Lleol perthnasol ac aelodau'r Cyngor er mwyn trafod materion y gallai'r Cyngor a'r Bwrdd Iechyd Lleol gytuno arnynt rhyngddynt, a hynny ddim llai nag unwaith bob blwyddyn.

### Adfocatiaeth gwyno annibynnol

**22.** Rhaid i Gynghorau ddarparu'r gwasanaethau adfocatiaeth y mae angen eu darparu o dan adran 19A o'r Ddeddf ar ran y Cynulliad.

## RHAN V

Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned yng Nghymru

### Sefydlu Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned yng Nghymru

**23.** Sefydlir drwy hyn, yn effeithiol o 1 Ebrill 2004, gorff i'w alw'n Fwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned yng Nghymru y bydd ganddo'r swyddogaethau canlynol—

(a) rhoi cyngor i Gynghorau mewn cysylltiad â chyflawni eu swyddogaethau;

(b) cynorthwyo Cynghorau i gyflawni eu swyddogaethau;

(c) cynrychioli safbwyntiau a buddiannau Cynghorau ar y cyd gerbron y Cynulliad;

(ch) monitro perfformiad Cynghorau a swyddogion a benodwyd o dan reoliad 14 gyda'r bwriad bod pob Cyngor yn datblygu a sicrhau cysondeb eu safonau.

### Cyfansoddiad Bwrdd CIC

**24.** Bydd ar Fwrdd CIC 28 o aelodau a bydd —

(a) 26 ohonynt yn cael eu penodi gan y Cynghorau'n gweithredu ar y cyd; a

(b) 2 yn cael eu penodi gan y swyddogion a benodwyd o dan reoliad 14 a'r rheini'n gweithredu ar y cyd.

### Staff cynnal

**25.**—(1) Rhaid i'r Cynulliad benodi person sy'n dderbyniol i Fwrdd CIC i fod yn Gyfarwyddwr y Bwrdd a rhaid iddo hefyd, ar ôl ymgynghori â Bwrdd CIC ac yn ddarostyngedig i fod Bwrdd CIC yn derbyn unrhyw swyddogion unigol a benodir, benodi personau i fod yn swyddogion eraill Bwrdd CIC fel sy'n angenrheidiol ym marn y Cynulliad.

(2) Rhaid i benodiad person i weithredu fel un o swyddogion Bwrdd CIC gael ei wneud gan y Cynulliad mewn dull ac am gyfnod sy'n dderbyniol i Fwrdd CIC.

(3) Rhaid i bersonau a benodwyd yn unol â pharagraff (1) a pharagraff (2) gael eu cyflogi gan y Bwrdd Iechyd Lleol y bydd y Cynulliad yn penderfynu arno at y diben , a hynny'n unol ag unrhyw reoliadau a wneir gan y Cynulliad ac unrhyw gyfarwyddiadau a roddir ganddo o dan y Ddeddf, a rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol hwnnw sy'n eu cyflogi'n sicrhau bod eu gwasanaeth ar gael i'r Cyngor gydol tymor eu gwasanaeth.

### Mangreoedd a chyfleusterau eraill

**26.**—(1) Rhaid i'r Cynulliad, ar ôl ymgynghori â Bwrdd CIC —

(a) ddarparu lle y mae ei angen ym marn y Cynulliad ar gyfer swyddfa a llety arall i Fwrdd CIC i alluogi'r Bwrdd i gyflawni ei swyddogaethau; a

(b) sicrhau y gwneir trefniadau ar gyfer y gwaith gweinyddu, cynnal a chadw, glanhau a'r gwasanaethau eraill hynny y gall fod eu hangen ym marn y Cynulliad ar gyfer llety o'r fath,

ond caiff yr aelodau, gyda chymeradwyaeth y Cynulliad, wneud trefniadau ar gyfer darparu gwasanaethau a llety.

(2) I alluogi Bwrdd CIC i gyflawni ei swyddogaethau —

(a) caiff y Cynulliad sicrhau bod y cyfleusterau hynny y mae o'r farn bod eu hangen ac a ddarperir ganddo ar gyfer unrhyw wasanaeth o dan y Ddeddf (yn cynnwys defnyddio unrhyw fangre a defnyddio unrhyw gerbyd, peiriannau neu offer) ar gael i Fwrdd CIC; a

(b) rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol y cyfeirir ato yn rheoliad 25(3) sicrhau bod gwasanaethau'r cyflogeion hynny a gall y Cynulliad eu pennu yn ei gyfarwyddyd ar gael.

### Trafodion

**27.**—(1) Rhaid i Fwrdd CIC fabwysiadu cyfansoddiad a Rheolau Sefydlog fel y gwêl yn dda.

(2) Caniateir amrywio'r cyfansoddiad a'r rheolau a fabwysiedir felly mewn unrhyw gyfarfod dilynol o Fwrdd CIC.

(3) Caiff Bwrdd CIC benodi pwyllgorau ac is-bwyllgorau y caiff personau nad ydynt yn aelodau o Fwrdd CIC fod yn aelodau ohonynt.

(4) Bydd hawl gan gynrychiolydd o'r Cynulliad a chynrychiolydd o'r Bwrdd Iechyd Lleol y cyfeirir atynt yn rheoliad 25(3) fynychu unrhyw gyfarfodydd o Fwrdd CIC a chymryd rhan mewn trafodaethau (ond ni chânt gyfrannu at wneud penderfyniadau).

### Adroddiadau

**28.** Rhaid i Fwrdd CIC, erbyn 1 Medi 2004 ac ym mhob blwyddyn ddilynol, gyflwyno adroddiad ysgrifenedig i'r Cynulliad ynghylch cyflawni ei swyddogaethau yn ystod y cyfnod o ddeuddeg mis yn gorffen ar 31 Mawrth y flwyddyn honno, ac ynghylch materion eraill y gall y Cynulliad ofyn amdanynt.

# RHAN VI

### Cyllid a Chyfrifon

### Cyllid

**29.**—(1) Rhaid i'r Cynulliad dalu Bwrdd CIC a'r Cynghorau y symiau sydd eu hangen ym marn y Cynulliad er mwyn i Fwrdd CIC gyflawni ei swyddogaethau ac i'r Cynghorau gyflawni eu swyddogaethau hwythau o dan y Rheoliadau yn y drefn honno, a bydd yn rhaid talu'r symiau hyn ar yr adegau hynny ac o dan yr amodau hynny y gall y Cynulliad o dro i dro benderfynu arnynt.

(2) Rhaid i Fwrdd CIC gyflwyno i'r Cynulliad ar y ffurf ac erbyn y dyddiad y gall y Cynulliad ofyn amdanynt, yr amcangyfrifon hynny y gall y Cynulliad ofyn amdanynt o'r costau y mae Bwrdd CIC yn disgwyl mynd iddynt yn ystod y blynyddoedd ariannol hynny y gall y Cynulliad eu pennu.

(3) Rhaid i bob Cyngor gyflwyno i Fwrdd CIC ar y ffurf ac erbyn y dyddiadau y gall Bwrdd CIC ofyn amdanynt yr amcangyfrifon hynny y gall y Bwrdd CIC ofyn amdanynt o'r gwariant a ddisgwylir gan bob Cyngor yn ystod y blynyddoedd ariannol hynny y gall Bwrdd CIC eu pennu.

(4) Rhaid i Fwrdd CIC gadarnhau cyfansymiau'r amcangyfrifon a gyflwynir o dan baragraff (3) wedi'u haddasu neu heb eu haddasu, neu'n ddarostyngedig i'r fath amodau ag y gwêl Bwrdd CIC yn dda, a chaiff amrywio'r cadarnhad neu'r amodau ar unrhyw adeg a bydd yn argymell y symiau hynny i'r Cynulliad i'w talu o dan baragraff (1).

(5) Rhaid i wariant Bwrdd CIC a'r Cynghorau beidio â bod yn fwy na'r symiau a gymeradwywyd gan y Cynulliad o dan y rheoliad hwn.

**Cyfrifon**

**30.**—(1) Rhaid i Fwrdd CIC a'r Cynghorau baratoi a chadw'r cyfrifon hynny y gall y Cynulliad ofyn amdanynt a hynny mewn cysylltiad â phob blwyddyn ariannol a rhaid i'r cyfrifon fod yn adlewyrchiad gwir a theg o unrhyw incwm a gwariant a llif arian mewn cysylltiad â Bwrdd CIC a'r Cynghorau.

(2) Rhaid i'r Cynghorau a Bwrdd CIC anfon copi o'u cyfrifon blynyddol eu hunain mewn cysylltiad â phob blwyddyn ariannol i'r Cynulliad cyn gynted â phosibl ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol.

# RHAN VII

## Dirymiadau

**Dirymiadau**

**31.** I'r graddau y maent yn gymwys i Gymru, dirymir drwy hyn Reoliadau Cynghorau Iechyd Cymuned 1996(**11**), Rheoliadau Cynghorau Iechyd Cymuned (Diwygio) (Cymru) 2000(**12**) a Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymdeithas Cynghorau Iechyd Cymuned) 1977(**13**).

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**14**))

*John Marek*
24 Mawrth 2004 — Dirprwy Lywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**11**) O.S. 1996/640.
(**12**) O.S 2000/479 (Cy.20).
(**13**) O.S. 1977/874.
(**14**) 1998 p.38.

## YR ATODLEN

Rheoliad 13

**1.** Cynhelir cyfarfod cyntaf Cyngor a sefydlwyd o dan adran 20A(2)(b) o'r Ddeddf ar y dyddiad ac mewn lle y gall y Cynulliad a fydd yn gyfrifol am alw'r cyfarfod eu pennu.

**2.** Rhaid cynnal cyfarfod o'r Cyngor o leiaf unwaith ym mhob cyfnod o dri mis a rhaid i'r cyfarfodydd fod yn agored i'r cyhoedd.

**3.**—(1) Ar ôl y cyfarfod cyntaf, caiff y cadeirydd alw cyfarfod o'r Cyngor unrhyw bryd.

(2) Os cyflwynir cais am gynnal cyfarfod, a hwnnw wedi'i lofnodi gan draean o leiaf o gyfanswm yr aelodau, i'r cadeirydd, a naill ai —

(a) bod y cadeirydd yn gwrthod galw cyfarfod; neu

(b) nad yw'r cadeirydd yn galw cyfarfod o fewn deg diwrnod i dderbyn y cais, a hynny heb wrthod galw cyfarfod,

caiff yr aelodau hynny alw cyfarfod ar eu hunion.

(3) Cyn pob cyfarfod o Gyngor, rhaid danfon hysbysiad o'r cyfarfod—

(a) sy'n nodi'r busnes y cynigir ei drin yno; a

(b) a lofnodwyd gan y Prif Swyddog neu gan un o swyddogion y Cyngor a awdurdodwyd gan y Prif Swyddog i arwyddo ar ei ran,

i bob aelod, neu ei anfon trwy'r post i'w breswylfa arferol neu ei gyfeiriad busnes arferol, a hynny o leiaf saith diwrnod cyfan cyn dyddiad y cyfarfod.

(4) Ni fydd methu â chyflwyno hysbysiad i unrhyw aelod yn effeithio ar ddilysrwydd cyfarfod.

(5) Yn achos cyfarfod a gaiff ei alw gan aelodau yn hytrach na'r cadeirydd, rhaid i'r aelodau hynny lofnodi'r hysbysiad ac yn y cyfarfod rhaid peidio â thrin unrhyw fusnes heblaw'r busnes a bennir yn yr hysbysiad.

**4.**—(1) Mewn unrhyw gyfarfod o Gyngor rhaid i'r cadeirydd lywyddu, os yw'n bresennol.

(2) Os yw'r cadeirydd yn absennol o'r cyfarfod rhaid i is-gadeirydd lywyddu os yw'n bresennol.

(3) Os yw'r cadeirydd a'r is-gadeirydd yn absennol, llywyddir gan aelod y bydd yr aelodau sy'n bresennol yn ei ddewis.

**5.** Penderfynir ar bob cwestiwn mewn cyfarfod gan fwyafrif pleidleisiau yr aelodau sy'n bresennol ac sy'n pleidleisio ar y cwestiwn ac, yn achos pleidlais gytbwys, bydd gan y person sy'n llywyddu ail bleidlais a honno'r bleidlais fwrw.

**6.** Rhaid peidio â thrin unrhyw fusnes mewn cyfarfod onid oes traean o'r aelodau o leiaf yn bresennol (ac eithrio llefydd gwag ac aelodau cyfetholedig).

**7.** Rhaid llunio cofnodion a'u cyflwyno er mwyn cytuno arnynt yng nghyfarfod nesaf y Cyngor, a rhaid i'r person sy'n llywyddu yno eu llofnodi.

**8.** Rhaid cofnodi enwau aelodau sy'n bresennol mewn cyfarfod yng nghofnodion y cyfarfod.

**9.** Ym mharagraff 3 o'r Atodlen hon mae "cadeirydd" yn cynnwys is-gadeirydd sy'n gweithredu fel cadeirydd.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Gosododd Adran 20 o Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977 ddyletswydd ar yr Ysgrifennydd Gwladol, sydd bellach yn arferadwy gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru mewn perthynas â Chymru, i sefydlu Cynghorau Iechyd Cymuned. Mae Adran 1 o Ddeddf Iechyd (Cymru) 2003 yn darparu ar gyfer diddymu adran 20 o Ddeddf 1977 ac Atodlen 7 iddi ac yn mewnosod hefyd adran newydd 20A ac Atodlen newydd 7A yn Neddf 1977.

Mae adran 20A yn darparu bod Cynghorau Iechyd Cymuned yng Nghymru yn cael eu cadw; mae Atodlen 7A yn galluogi Cynulliad Cenedlaethol Cymru i wneud rheoliadau mewn cysylltiad â Chynghorau Iechyd Cymuned.

Mae'r Rheoliadau hyn yn disodli Rheoliadau Cynghorau Iechyd Cymuned 1996. Maent yn gwneud darpariaeth mewn cysylltiad â:—

chyfansoddiad ac aelodaeth Cynghorau (gan gynnwys darpariaeth ar gyfer penodi aelodau i Gynghorau sy'n bodoli eisoes a Chynghorau a sefydlwyd neu a ailgyfluniwyd o dan adran 20A o Reoliadau 2003 (rheoliadau 2 i 10). Mae Rheoliadau 1996 ar hyn o bryd yn darparu y daw hanner aelodau Cynghorau Iechyd Cymuned o awdurdodau lleol, traean ohonynt o gyrff gwirfoddol a'r gweddill i'w penodi gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae'r Rheoliadau hyn darparu y bydd chwarter aelodau Cynghorau Iechyd Cymuned, erbyn Ebrill 2006, yn cael eu penodi gan awdurdodau lleol, chwarter yr aelodau gan gyrff gwirfoddol a'r gweddill gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae rheoliad 7 yn darparu ar gyfer gweithdrefnau penodi;

trafodion (rheoliadau 11 i 16);

staff a mangreoedd (rheoliadau 14 ac 15);

cyllid (rheoliadau 29 a 30); a

swyddogaethau (rheoliadau 17 i 22) sy'n cynnwys y gofyniad am i gyrff y gwasanaeth iechyd (h.y. Byrddau Iechyd Lleol, Ymddiriedolaethau GIG, Ymddiriedolaethau Gofal Sylfaenol ac Awdurdodau Iechyd Strategol), awdurdodau lleol a darparwyr gwasanaethau iechyd i deuluoedd (e.e. meddygon teulu, fferyllwyr, deintyddion ac optegwyr) yn ogystal ag eraill sy'n berchen ar fangreoedd lle y darperir gwasanaethau o'r fath neu sy'n eu rheoli i ganiatáu i aelodau awdurdodedig Cynghorau Iechyd Cymuned i archwilio mangreoedd y maent yn berchen arnynt neu a reolir ganddynt. Er, yn gyffredinol, y bydd gofyn rhoi rhybudd rhesymol o'r archwiliad, ni fydd angen rhoi rhybudd os yw Cyngor o'r farn bod archwiliad er budd y gwasanaeth iechyd neu er lles neu ddiogelwch cleifion (rheoliad 20). Mae rheoliad 22 yn ei gwneud yn ofynnol i Gynghorau ymgymryd â gwasanaethau adfocatiaeth annibynnol ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru, fel sy'n ofynnol o dan adran 19A o Ddeddf 1977.

Mae rheoliad 23 yn darparu ar gyfer sefydlu corff statudol newydd a elwir yn Fwrdd y Cynghorau Iechyd Cymuned yng Nghymru i gynghori a helpu Cynghorau Iechyd Cymuned i gyflawni eu swyddogaethau. Bydd y bwrdd hefyd yn rhoi gwybod i Gynulliad Cenedlaethol Cymru beth yw barn ar y cyd y Cynghorau Iechyd Cymuned ac yn monitro perfformiad Cynghorau Iechyd Cymuned gyda'r bwriad o ddatblygu a sicrhau cysondeb yn safonau y Cynghorau i gyd. Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ar gyfer cyfansoddiad (rheoliad 24), staff a mangreoedd (rheoliadau 25 a 26), trafodion y Bwrdd (rheoliad 27) a chyllid (rheoliadau 29 a 30).

I'r graddau y maent yn gymwys i Gymru, mae'r Rheoliadau hyn yn dirymu Rheoliadau Cynghorau Iechyd Cymuned 1996, Rheoliadau Cynghorau Iechyd Cymuned (Diwygio) 2000 a Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymdeithas y Cynghorau Iechyd Cymuned) 1977.